HSCCLD356

# Rhoi fframweithiau blynyddoedd cynnar ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion ar gyfer rhoi fframweithiau blynyddoedd cynnar ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm. Mae’n cynnwys datblygu a gweithredu cynlluniau. Mae'n gofyn i chi fonitro fframweithiau blynyddoedd cynnar a myfyrio ar eich ymarfer. Dylai'r gwaith o gynllunio a rhoi'r cwricwlwm ar gyfer y blynyddoedd cynnar ar waith fod yn gyson â'r fframweithiau yn eich gwlad.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. defnyddio fframweithiau blynyddoedd cynnar i lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm sy'n cefnogi dysgu a datblygu holistaidd
2. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau bod gwybodaeth newydd am gynllunio cwricwlwm yn cael ei rhannu
3. sefydlu cylch cynllunio parhaus sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol
4. sicrhau bod cynlluniau'n adlewyrchu gwerthoedd, ethos a dull addysgegol y gweithle
5. gwreiddio ymarfer gwrthwahaniaethol a chynhwysol yn yr holl waith cynllunio
6. defnyddio arsylwadau a rhyngweithiadau i lywio'r gwaith cynllunio, gan ymateb i ddiddordebau, dewisiadau ac anghenion sy'n dod i'r amlwg ymysg y plant
7. sicrhau dulliau hyblyg, gan ganiatáu ar gyfer natur ddigymell, chwilfrydedd a chyfleoedd dysgu bywyd go iawn
8. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac eraill i greu mannau a phrofiadau dysgu ar y cyd sy'n cefnogi datblygiad plant
9. cynllunio cydbwysedd rhwng profiadau sy'n cael eu harwain gan blant a rhai sy'n cael eu harwain gan oedolion
10. darparu amgylcheddau dysgu sy'n cefnogi cyfleoedd chwarae ystyrlon ar eich pen eich hun ac mewn grŵp, dysgu sy'n seiliedig ar ymchwiliadau, a phrofiadau yn y byd go iawn
11. hwyluso amgylcheddau ysgogol a diogel yn yr awyr agored lle gall plant archwilio a dysgu drwy chwarae sy'n seiliedig ar natur
12. darparu dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi chwarae a dysgu, gan sicrhau bod adnoddau digidol yn cefnogi yn hytrach na disodli profiadau chwarae yn y byd go iawn
13. cynllunio ar gyfer pontio, gan sicrhau parhad mewn dysgu wrth i blant symud drwy wahanol brofiadau
14. cynnwys plant yn y gwaith o lunio eu profiadau dysgu eu hunain, gan werthfawrogi eu lleisiau a'u dewisiadau
15. darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae'n rhydd, darganfod dan arweiniad, a datrys problemau â chefnogaeth
16. addasu cynlluniau ar sail asesiad parhaus, gan ddarparu cefnogaeth neu heriau addas
17. hwyluso profiadau dysgu diddorol sy'n seiliedig ar brofiadau ymatebol sydd

wedi'u cynllunio

18. dathlu llwyddiannau plant, a’u defnyddio i lywio'r camau dysgu nesaf
19. nodi pryd mae angen cymorth ychwanegol ar blant a mynnu ymyriadau addas
20. mynd ati i fyfyrio ar y cyd ag eraill i werthuso a mireinio cynlluniau cwricwlwm
21. monitro ac asesu cyfranogiad a chynnydd plant, gan ddefnyddio canfyddiadau i addasu cynlluniau i gwrdd ag anghenion plant
22. cyfathrebu â theuluoedd ynghylch sut mae cynlluniau cwricwlwm yn cefnogi datblygiad plant ac yn eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau
23. cwblhau'r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer rhoi fframweithiau blynyddoedd cynnar ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm
24. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i roi fframweithiau blynyddoedd cynnar ar waith i lywio’r gwaith o gynllunio cwricwlwm

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd arferion a chyfnodau pontio o ran darparu parhad a diogelwch i blant
2. ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd sy'n effeithio ar ddatblygiad plant
3. sut mae niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol yn gallu cael eu cefnogi wrth gynllunio ar gyfer dysgu
4. effaith ymlyniad, perthnasoedd a llesiant ar allu plant i ymwneud â dysgu
5. dylanwad diwylliant a chefndir plant ar sut rydych yn cynllunio ar gyfer cwricwlwm a dysgu
6. pwrpas fframweithiau cwricwlwm blynyddoedd cynnar o ran cefnogi dysgu a datblygu holistaidd plant
7. pwysigrwydd dulliau cynllunio ymatebol a chylchol
8. sut mae sicrhau cydbwysedd rhwng profiadau sy’n cael eu harwain gan blant a rhai sy’n cael eu harwain gan oedolion i greu cyfleoedd dysgu ystyrlon
9. arwyddocâd dysgu sy'n seiliedig ar chwarae o ran datblygu ac archwilio
10. sut mae sicrhau bod cynlluniau’n adlewyrchu ethos, gwerthoedd a dull addysgegol y gweithle
11. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i roi fframweithiau ar gyfer addysg gynnar ar waith drwy gynllunio cwricwlwm
12. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gynllunio ar gyfer dysgu
13. sut mae defnyddio arsylwadau a rhyngweithiadau i lywio'r gwaith cynllunio ac addasu profiadau dysgu i blant unigol
14. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gynllunio cwricwlwm
15. strategaethau ar gyfer creu profiadau dysgu hyblyg y gellir eu haddasu, gan ymateb i fomentau mewn bywyd go iawn a chwilfrydedd plant
16. arwyddocâd dewis rhydd ac awtonomiaeth o ran cefnogi hyder a chymhelliant plant
17. sut mae creu amgylcheddau ysgogol a diddorol sy'n cefnogi cyfleoedd i archwilio, datrys problemau ac ymholi
18. sut mae integreiddio profiadau yn y byd go iawn, adnoddau digidol, ac adnoddau cynaliadwy penagored i gyfoethogi dysgu
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac eraill i greu cyfleoedd dysgu

20. arwyddocâd chwarae corfforol, seiliedig ar fyd natur, yn yr awyr agored o ran hybu llesiant a thwf holistaidd
21. sut mae defnyddio asesiadau, cofnodion ac adroddiadau yn effeithiol i olrhain dysgu a llywio’r camau nesaf
22. rôl hunanwerthusiad wrth gynllunio cwricwlwm
23. disgwyliadau cyrff rheoleiddio ac arolygiaethau mewn perthynas â chynllunio a gweithredu cwricwlwm
24. theorïau sy’n berthnasol i roi fframweithiau blynyddoedd cynnar ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer rhoi fframweithiau blynyddoedd cynnar ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth roi fframweithiau blynyddoedd cynnar ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm
27. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth roi fframweithiau blynyddoedd cynnar ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm, a sut i fynd i'r afael â hyn
28. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth roi fframweithiau blynyddoedd cynnar ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD356

Rhoi fframweithiau blynyddoedd cynnar ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD356 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cynllunio Cwricwlwm, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |